# y dinesydd

Chwefror 2003 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 278


## Teulu Hedd Wyn

Mr Rolant Williams, 13 St Aidan Crescent a'i chwaer Dilys Williams yn sefyll wrth fedd Bardd y Gadair Ddu. Mae'r ddau yn ddisgynyddion i Hedd Wyn. Taid Rolant a Dilys yn gefnder i'r bardd - y ddwy fam yn chwiorydd. Roedd Rolant a Dilys yn rhan o'r bererindod a aeth i fynwent Artillery Wood, Boezinge yn ystod yr Hydref. Cyfeirnod y bedd yw Plot 11, Rhes F, Bedd 11.





## Gŵyl yr Hen Galan

Nos Wener y degfed o Ionawr cynhaliwyd noson i ddathlu Gŵyl yr hen Galan yn nhafarn y Mochyn Du. Roedd hi'n noson lwyddiannus iawn, a'r Mochyn Du yn orlawn o Gymry Caerdydd yno i ymuno yn yr hwyl a'r miri gyda'r Fari Lwyd (Dawnswyr Twrch Trwyth) ac Awen (deuawd Geltaidd) yng nghwmni Gareth Whelan ar y ffidil. Trefnwyd y noson gan Fenter Caerdydd gyda chefnogaeth Banc yr HSBC. Hoffai Menter Caerdydd ddiolch yn gynnes i bawb am eu cefnogaeth. Bydd y Fenter yn cynnal llawer o nosweithiau adloniant maes o law.

## "*A Manchukuo Incident*"

Mae llawer o ddarllenwyr *Y Dinesydd* yn siwr o fod yn gyfarwydd a'r stori drist fel y llofruddiwyd y newyddiadurwr o'r Barri, Gareth Jones, yng Nghanolbarth Mongolia ar y 12fed o Awst 1935, ddiwrnod cyn ei benblwydd yn 30 oed. Yn 2001 cyhoeddodd ei nith, Dr Siriol Coley, gyfrol dan y teitl "A Manchukuo Incident", ffrwyth deng mlynedd o ymchwil. Ynddi mae nifer da o luniau o bob rhan o'r byd ond mae un a dynnwyd ar faes yr Eisteddfod gyda Gareth yng nghwmni dau fachgen ysgol. Nid oedd yn wybyddus i Siriol ym mha Eisteddfod y tynnwyd y llun na phwy oedd y ddau fachgen.

Gall *Y Dinesydd* ddatgelu y ffaith ddiddorol mai yn Eisteddfod Wrecsam 1933 y tynnwyd y llun ac mai cydaelodau o Eglwys (MC) Penuel Y Barri oedd y ddau frawd, sef Eryl a Richard Hall Williams.

Fel Gareth, aethant i Brifysgol Aberystwyth. Cafodd Eryl radd anrhydedd dosbarth cyntaf yn y Gyfraith. Bu'n wrthwynebydd cydwybodol yn ystod y rhyfel gan weithio gyda'r Crynwyr (*Friends Voluntary Relief Organisation*) yn gofalu am blant garcharwyd yn Belsen a threfnu gofal dros dro am y rhai digartref, Pwyliaid yn bennaf. Bu'n darlithio yn y Gyfraith mewn sawl Prifysgol yna'n Athro Troseddeg (*Criminology*) yn yr LSE, yn aelod o'r Parole Board ac ysgrifennodd sawl llyfr yn ei faes. Wedi graddio, aeth Richard yn weinyddwr mewn llywodraeth leol. Aeth i'r Swyddfa Gymreig yn 1967 a bu mewn sawl adran yno nes ei benodi yn bennaeth yr Adran Amaeth cyn ymddeol. Bu'n Drysorydd *Y Dinesydd* am gyfnod. Llynedd, cyhoeddodd y gyfrol Hanes Salem Canton 1856-2000 ac mae wedi paratoi crynhoad Saesneg o'r hanes.



Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 1933. Eryl Hall Williams, Gareth Vaughan Jones, Richard Hall Williams

# Y Dinesydd

**Chwefror, Rhif 278.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, Ffôn: 029 2056 6046, ebost: lorraine@pioneerprinting.co.uk a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Golygydd y rhifyn hwn:**
Garwyn Davies

**Golygydd y rhifyn nesaf:**
Siân Parry-Jones

### NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Mawrth 2003 erbyn 21 Chwefror at:**
Siân Parry-Jones, 87 Halliard Court, Glanfa Iwerydd, Caerdydd CF10 4NH (Ffôn: 07985-043633; e-bost: sepj@lineone.net)

**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754;
e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

### CALENDR

Anfonwch eitemau at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

### DOSBARTHU

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 2084 2929).

### HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur.
Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 029-2041 8270;
e-bost: menna@gwyn41.freeserve.co.uk)

### CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 2040 4906) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

### FFURFLEN GYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ......................................................................

.............................................. Côd Post: ...................

Rhif Ffôn: ......................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

**CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN**

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT . . .


**0845 6076070**

Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk www.papurau-bro.com

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 378** **Chwefror 2003**



**Ar Draws**

1. Gwneud teisen drwy roi'r cyntaf o'r cynhwysion yn y gorchudd (5)
4. Mae cynffon cyntaf asyn yn fyr (4)
8. Mae Ebrill yn ddigalon a Ionawr yn hanner coll yn nwylo'r saer (7)
9. Ffinio ar y cymylau heb aelod o'r cynulliad (5)
10. Talu'n ôl a gafael am un (4)
11. 'Ac mi debygaf dywaf sŵn _____ rai o'm blaen' (W.W.) (8)
13. Cynhyrfu y wrach ar ôl y cyffro cyntaf i gael defnydd gwneud rhaff (6)
14. A oes iâr wedi ei choginio heb wres?
16. Alarch blin mewn amgylchiadau poeth rywle yn Sir Gâr (8)
17. Gofid i'r glust yw cysylltu (4)
20. Rywsut gwn dy fod yn galed (5)
21. Gall gwir ddyn greu glesni (7)
22. Ffeindio'r bardd hwn mewn ffaethineb enbyd (4)
23. Gwelir mewn bargen ynfyd hanfod eich neilltuolrwydd (5)

**I Lawr**

1. Gwneud bydysawd allan o'r arcêd (5)
2. 'Y chwedlau ___ _ ___ ers canrifoedd
   Y duwiau na ŵyr neb amdanynt 'nawr' (Waldo) (4,1,7)
3. Sbonc mab i frawd Dafydd (4)
4. Bydd hanner canrif nes dychwel y ffon (6)
5. 'Bendithion ar fendithion
   ____ angau loes,
   Grawnsypiau mawrion aeddfed
   Yn hongian ar y groes' (W.W) (8)
6. O ddwyn Cymraes o gwmpas cawn rywbeth â gwraidd dwfn iddo (12)
7. Mae'r milwr yn ddewr efallai i ddilyn tyrfa (6)
12. Aflwydd yn dod â brech i'n tŷ dyrys (8)
13. Bron yn cŵl cael trosgais ar yn ail er yn prinhau (6)
15. Hanner creu hollt ar gefn malwoden (6)
18. Cadw'r undeb yn Lloegr yn syth (5)
19. 'Lliain diwylliant o sidanau ___' (Gwenallt) (4)

**Croesair Rhif 37**

**Ar draws:** 1. Rhibwob; 5. Ategol; 9. Dywed; 10. Eiriol; 11. Rhaid; 12. Gwywedig; 14. Datgan; 16. Ansicr; 19. Treiglodd; 21. Odli; 22. Athrofa; 23. Rymba; 24. Cawsom; 25. Meseia. **I lawr:** 2. Indiana; 3. Bywydeg; 4. Byd i ganol; 6. Teirw; 7. Gwindai; 8. Lelog; 13. Y bardd trwm; 15. Trefriw; 17. Stormus; 18. Calfari; 19. Tranc; 20. Gofio.

Derbyniwyd 24 ymgais, ac 16 ohonynt yn gywir. Danfonir y tocyn llyfr y tro hwn i Sisr Benfro at Rhian James Davies, Arosfa, Crymych. Roedd gormod o atebion cywir i restri yr enwau i gyd y mis hwn.

**Cystadleuaeth Chwefror**: Anfonwch eich atebion i: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN. Atebion i gyrraedd erbyn 21 Chwefror 2003.

## Llongyfarchiadau

- i Helen Wilkins, o'r Eglwys Newydd, ar ei dyweddiad yn ddiweddar â Dr Andy Pal o Dunstable. Maent yn gweithio yn Taunton.
- Nia Wales, Rhiwbina a Stephan Blackwell ar eu priodas yn Eglwys y Crwys ar 4 Ionawr. Gwasanaethwyd gan y Gweinidog, y Parchg Glyn Tudwal Jones a'r organydd oedd Emyr Roberts.
- Siwan Jobbins, yr Eglwys Newydd ar ei phriodas â Gafyn Lloyd Jones yng Ngwesty Coed y Mwstwr, Llangrallo ar 22 Rhagfyr. Arlunydd Graffeg ydy Gafin a Siwan yn Gomisiynydd Rhaglenni Plant S4C.
- Dafydd Du a Rhianydd Wyn ar enedigaeth Megan ar 23 Rhagfyr.
- Seth a Bridie ar enedigaeth eu merch Aine Catrin ar 29 Tachwedd. Wyres i Emyr a Catrin Edwards, Rhadur.
- i Steffan Morgan o Pontcanna ar ennill gradd MA gyda chymeradwyaeth o Brifysgol Bryste.
- i Janine a'r Dr Shon Phillips ar enedigaeth eu mab Patric, brawd bach i Ioan, Edward a Steffan ac wyrion i Janet ac Ifor Phillips, Woodvale Avenue, Cyncoed.
- i Caryn a Garth Phillips o Aberystwyth ar enedigaeth ei mab Aled ar Ionawr 17, brawd bach i Iwan ac ŵyr arall i Janet ac Ifor Phillips, Cyncoed.

## Cydymdeimlir:

- â Helen Williams, Rhiwbina a'i theulu ar golli ei chwaer Janet yn 59 oed yn Ysbyty Brenhinol Llantrisant ar 24 Rhagfyr. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 6 Ionawr.
- ag Eirian Edwards, Rhiwbina a'i theulu ar golli ei mam Sarah Edwards, gynt o Benybryn y Pîl a fu farw yn Ysbyty Wrecsam Maelor ar 26 Rhagfyr. Bu'r angladd yn Amlosgfa Margam ar 3 Ionawr.
- â Linda Ladd, rhadur a'i theulu ar golli ei gwr Simon Thomas Bryan Ladd a fu farw yn ysbyty Llandochau ar 26 Rhagfyr. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 3 Ionawr.
- â Rhiannydd Thomas, yr Eglwys Newydd ar golli ei thad, y Parchg Glyndwr Morton-Thomas, 91 oed a fu farw yn Ysbyty'r Brifysgol ar 29 Rhagfyr. Bu'n gweinidogaethu yn Argoed, Caerffili, Casllwchwr a'r Eglwys Newydd. Cynhaliwyd gwasanaeth preifat yn ei gartref ar 10 Ionawr ac yn dilyn yn Amlosgfa'r Ddraenen.
- â theulu y diweddar Siân Eleri Bowen, Glan y Llyn, Caerdydd a fu farw yn Ysbyty Felindre, yr Eglwys Newydd ar 13 Rhagfyr. Bu'r angladd yng Nghapel Caersalem, Pontyberem ar 19 Rhagfyr.
- â theulu y diweddar Elwyn Morgan, Tonteg a fu farw ar fore Nadolig.

## Marw Cyfansoddwr

Bu farw y cyfansoddwr Dr David Harries yn 69 oed yn ei gartref ym Mhenarth ar ddydd Nadolig. Brodor o Sir Benfro ydoedd a graddiodd yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberyswyth. Roedd e yn Aberystwyth yr un pryd â'r cyfansoddwr William Mathias a Roy Bohana cyn Gyfarwyddwr Cerdd Cyngor y Celfyddydau yng Nghymru. Cafodd yrfa ddisglair a bu'n beirniadu'n aml yn Eisteddfod Llangollen a'r Eisteddfod Genedlaethol. Cydymdeimlir â'i wraig Alwena a'r plant yn eu colled. Bu'r angladd yn Eglwys Sant Agwstin Penarth ar 7 Ionawr ac yn dilyn yn Amlosgfa'r Ddraenen.

## Colli mam Tanni Grey-Thompson

Bu farw Sulwen Grey yn Ysbyty'r Brifysgol Caerdydd ar 6 Rhagfyr. Cydymdeimlir â'r gwr Peter Grey a'u dwy ferch, sef Tanni a Siân yn eu colled fawr. Bu Sulwen a'i rhieni Mr a Mrs Wili Jones yn aelodau yn Eglwys y Crwys am flynyddoedd lawer.

## Cymry'r Eglwys Newydd yn cefnogi elusennau

Cyngerdd gan Gôr Plant Caerdydd, dan arweiniad Mrs Mair Robins, oedd cyfarfod mis Tachwedd Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd. Casglwyd £150 yn y cyfarfod at Apêl Arch Noa, sef yr apêl i godi arian ar gyfer Ysbyty Plant Cymru. Noson Nadoligaidd yng nghwmni Côr Hamdden Caerdydd, dan arweiniad Mrs Eilonwy Jones, oedd cyfarfod mis Rhagfyr. Casglwyd £150 yn y cyfarfod hwnnw hefyd, y tro hwn ar gyfer Ysbyty Felindre.

## Gweithio yn Kenya

Pob dymuniad da i Rhiannon Evans o'r Eglwys Newydd sy bellach wedi dechrau gweithio mewn ysgolion cynradd yn Kenya. Bydd Rhiannon yno am bum mis cyn dychwelyd i Gymru.

## Gwobr am gamp

Llongyfarchiadau i Ben Phillips, Ysgol Glantaf ar ddod yn uchaf yng Nghaerdydd yn ei arholiad Ffrangeg Safon A. I gydnabod ei gamp cyflwynwyd £250 a thlws iddo gan Gangen Caerdydd o'r Gymdeithas Ffrengig-Prydeinig sy'n hyrwyddo yr iaith Ffrangeg a'i diwylliant.

## Siop Dan Evans, y Barri ar ei fyny

Sefydlwyd y siop hon gan dad cyn lywydd Plaid Cymru, sef Gwynfor Evans yn 1905 a byth oddi ar hynny bu'r siop yn gwasanaethu ardal y Barri ac yn boblogaidd iawn hefo'r cwsmeriaid ar hyd y blynyddoedd. Heddiw cyflogir tua 125 o bobl a'r Cyfarwyddwr Rheoli presennol ydy Geraint Evans, wyr y sefydlydd a'i gyd gyfarwyddwyr ydy Alcwyn Evans a Llywella Evans a'r prynwr Alcwyn Deiniol Evans. Y llynedd gwnaeth y siop a'r cwmni elw cyn treth o £96,407 sef cynnydd eto o'r elw cyn treth yn 2001.

## Gwobr i Arwel

Yn ystod yr Wyl Ffilm a gynhaliwyd yng Nghaerdydd cyn y Nadolig enillodd yr actor Arwel Gruffydd y wobr am ffilm naw munud yn y Gymraeg. Bydd y wobr o £25,000 yn mynd rwan tuag at gynhyrchu ffilm fer arall. Llongyfarchiadau Arwel!

## Camp Pensaer

Ym mis Rhagfyr cynhaliwyd seremoni wobrwyo arbennig ym Mae Caerdydd er mwyn cydnabod gwaith penseiri yn y gystadleuaeth gyntaf a drefnwyd gan Gymdeithas Frenhinol y Penseiri i gydnabod rhagoriaeth yng Nghymru mewn cynllunio tai. Ymhlith yr enillwyr oedd y pensaer Maredudd ab Iestyn am gynllunio ei dy "Ty Newydd" yng Nghaernarfon. Bu'r pensaer hwn yn y Coleg yng Nghaerdydd ac yn byw yn ein plith am flynyddoedd cyn symud i'r Gogledd. Llongyfarchiadau iddo ar ei gamp.

## Corris Trwy Lygad y Camera

Dyma drysor o lyfr a ddaeth o'r wasg ychydig cyn y Nadolig. Mr David Jones, Carisbrooke Way yw'r awdur, ei ymdrech gyntaf yn y maes arbennig hwn. Mae'r llyfr yn gyforiog o luniau sy'n portreadu bywyd yn ardal Corris dros gyfnod o ganrif. Cyfrol werthfawr iawn i frodorion yr ardal ac yn wir i unrhyw un sy'n ymddiddori mewn hanes neu astudiaethau bro. Gellwch sicrhau copi trwy gysylltu â David yn ei gartref, y rhif ffôn yw Caerdydd 2048 6374.

## Ymddeol a Chroesawu!

Ar ôl un mlynedd ar ddeg fel prifathro Ysgol Gyfun Rhydfelen ymddeolodd Brian James, Llandaf ar ddiwedd tymor y Nadolig ac ers mis Ionawr Peter Griffiths y Tyllgoed, cyn brifathro Ysgol Gyfun Llanhari sydd wrth y llyw. Ymddeoliad hapus a hir i Brian a chroeso a phob llwyddiant i Peter yn ei swydd newydd.

## Cydnabyddiad

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad Eglwys y Crwys o £75 tuag at dreuliau'r Dinesydd

## Pen-blwydd Hapus Rhydfelen!



Y llynedd bellach dathlwyd deugainfed pen-blwydd Ysgol Gyfun Rhydfelen 1962-2002 ac yn goron ar y dathlu cynhaliwyd Cyngerdd Mawreddog yn Oriel Prifysgol Morgannwg Trefforest ar nos Sadwrn, 14 Rhagfyr gyda Gwilym Humphreys, prifathro cyntaf yr ysgol yn wr gwadd. Cafwyd amrywiaeth hynod safonol o eitemau a gynrychiolai y gwahanol ddegawdau ac yn anerchiad Gwilym Humphreys soniodd am dri pheth yn arbennig a gofiai am yr ysgol, sef ffydd y rhieni yn Gymry Cymraeg a Di-Gymraeg; ymroad yr athrawon; a hyder y disgyblion. Diolchodd y prifathro ar y pryd Brian James i bawb am eu presenoldeb ac i bawb a gynorthwyodd i sicrhau llwyddiant digamsyniol y noson. Cafwyd gair hefyd gan brifathro newydd yr ysgol, sef Peter Griffiths cyn torri'r gacen a mwynhau gweddill y noson yn sgwrsio a hel atgofion. Pob llwyddiant i Ysgol Gyfun Rhydfelen ar ei safle newydd yn 2004.

## Englyn ar achlysur 40 oed Ysgol Rhydfelen

gan y Prifathro a'r cyn ddisgybl Emyr Lewis, gynt o Lysfaen, Caerdydd:

Gwywedig oedd y goeden - yn y cwm,
Ond caed o'r un fesen
Yn y pridd wrth fôn y pren
dwf eilwaith yn Rhydfelen.

## Aduniad Cyn-Ddisgyblion

Cynhaliwyd aduniad cyn-ddisgyblion Ysgol Uwchradd Tregaron cylch Caerdydd yn Nhy Bwyta Y Mochyn Du, Clos Soffia, ddydd Mercher, 7 Ionawr. Mae Gareth Hughes, y perchennog yn gyn-ddisgybl o'r ysgol a chafodd rhyw ddeunaw o'r cyn-Dregaroniaid brynhawn difyr yn edrych 'dros y bryniau pell'. Trefnwyd y cyfarfod gan Cyril Hughes o'r Creigiau.

# Cwis Gŵyl Ddewi



Cylch Meithrin Creigiau
Neuadd yr Eglwys, Creigiau

Chwefror 28ain

7.30

£4 i gynnwys lluniaeth ysgafn

Am docynnau ffoniwch
Siân ar 029 2089 0153
neu Ceri ar 029 2089 0009

## Llyfrau newydd

Daeth o'r wasg yn ddiweddar dri o lyfrau newydd gan awduron â chysylltiadau gyda bro'r *Dinesydd* ac ychydig tu hwnt.

Stori un dyn sy gan David Meredith yn ei gyfrol hunangofianol 'Pwy Fase'n Meddwl'. Ynddo cewch stori ei fywyd prysur a llawn, rhwng tref ei faboed yn Aberystwyth a'r gartre presennol yng nghefn gwlad Meirionnydd yng Nghwm Cynllwyd.

'I lawr Ymhlith y Werin' yw teitl llyfr Aled Islwyn. Casgliad o straeon difyr ac amrywiol ac y mae yma rywbeth a fydd yn apelio at bawb rhwng y cloriau.

Yn Cwmtec, cyfrol gan Gareth Miles ceir hanes Dewi S Jones, Uwch Swyddog yn yr Heddlu Milwrol ac yn ddiweddarach fel Ymchwilydd Annibynnol yng Nghwm Rhondda. Dadlennir yn y llyfr hanes ei brofiadau cymysg wrth geisio byw bywyd normal a'i alwedigaeth ar gyrion cymdeithas. Mae'r llyfrau yma ar werth ar hyn o bryd.

## Er Gwybodaeth

Derbyniodd *Y Dinesydd* nifer o gylch-lythyrau oddi wrth wahanol gyrff ac asiantaethau sy'n hybu a chynnal Cymreictod mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Gofynwyd i ni gynnwys y wybodaeth a ddaeth i law yn ein rhifyn cyfredol ac fe wneir hynny yma gyda'r cyfeiriadau perthnasol, fel y medrwch gysylltu â nhw yn uniongyrchol.

**Menter a Busnes** - Delyth Gruffydd, Uned 30, Parc Busnes Cross Hands, Cross Hands, Sir Gaerfyrddin SA14 6RB.

**Arian i Bawb Cymru** - Rhian Wyn Roberts. Rhif ffôn - 01686 611740.

E-bost: www.arianibawb.org.uk Arian y loteri ar gael i hybu gwaith a budd y gymuned leol.

**Iechyd** - Incontact Cymru, prosiect adfer a chynnal iechyd y rhai sy'n dioddef oddi wrth anhwylder yn ymwneud â'r bledryn a'r coluddion. Rheolwr y prosiect yw Anwen Knowles. Rhif ffôn - 0870 7703247. E-bost: Wales@incontact.org

Annwyl Olygydd,

Hwyrach y byddai cefnogwyr y rhyfel debygol yn erbyn Irac yn hoffi ystyried ffeithiau dadlennol a gyhoeddwyd gan y Cenhedloedd Unedig yn ddiweddar – "Likely Humanitarian Scenarios" (Rhagfyr 10). Gan ddefnyddio tystiolaeth Cymdeithas Iechyd y Byd amcangyfrifir y gallai'r nifer a gaiff eu lladd a'u hanafu fod cyn uched a hanner miliwn; y bydd 900,000 o Iraciaid yn ddi-gartref a thros 3 milliwn yn diodde newyn.

Mewn tystiolaeth ddamniol a gyflwynwyd i grwp ohonom ym Mrwsel yn ddiweddar gan wyddonwyr cymdeithas ymchwil EOS, dangoswyd y bydd yr arfau sy'n debyg o gael eu defnyddio ganwaith yn fwy ymbelydrol na'r arfau ddefnyddiwyd yn Rhyfel y Gwlff.

Mae 3 mil o blant y mis yn marw yno oherwydd gwaharddiadau'r gorllewin ar feddyginiaethau pwysig rhag cyrraedd y wlad. Byddai trafodaethau i ddod i ben a'r gwaharddiadau yn llawer mwy tebygol o greu cyfeillion o fewn y wlad a allai'n raddol helpu disodli Saddam Hussein na chefnogi cyrchoedd milwrol sy'n fwy tebyg o greu adwaith ymhlith elfennau mwya milwriaethus y gymuned Islamaidd.

Yn gywir,
EURIG WYN ASE (Plaid Cymru)
Brwsel.

# Newyddion o'r Eglwysi

## Ebeneser Caerdydd

**Aelodau Newydd**
Llawenydd digymysg inni ar nos Sul 15ed Rhagfyr oedd derbyn pump o bobl ifanc yr eglwys yn gyflawn aelodau, sef Siwan Dafydd, Gwenllïan Glyn, Caryl Lister, Siân Semmens a Lisa Thomas. Fe'u derbyniwyd gan y gweinidog a chyfarchwyd hwy trwy farddoniaeth gan Eira Jones ac ar lafar gan ein hysgrifennydd Dr.Emrys Evans.

**Llongyfarchiadau** mawr i Sioned Geraint ar ei phriodas gyda Rhys Hughes yn Salem, Treganna, 28 Rhagfyr. Gwasanaethwyd gan y Parch. John Stuart Roberts a Dewi Thomas.

Gwasaneth Coed-y-gof Eleni cynhaliwyd oedfa Nadolig Ysgol Coed-y-gof yn Ebeneser ar nos Iau 12ed Rhagfyr. Cafwyd cwrdd hyfryd o fendithiol o dan arweiniad y plant ac yr oedd ôl paratoi manwl ar y cyfan.

**Oedfaon y Nadolig**
Cafwyd nifer o oedfaon arbennig yn Ebeneser i ddathlu gwyl y geni. Ar nos Sul 8ed o Ragfyr cafwyd oedfa gofiadwy gan Gymdeithas y Chwiorydd. Yr ieuenctid oedd wrthi ar fore Sul y 15ed a chafwyd bendith o dan eu harweiniad. Y Sul dilynol sef yr 22ain cafwyd mwynhad mawr yn nghwrdd Nadolig plant yr ysgol Sul yn oedfa'r bore a chyda'r aelodau yn y nos. Yn dilyn oedfa'r bore - lle yr oedd cynulleidfa fawr - cynhaliwyd parti Nadolig .

## Minny Street, Caerdydd

Hyfrydwch oedd cael tystio i fedydd Efa Angharad Cray, merch Angharad Mair a Jonathan fore Sul, Rhagfyr 1.

Cafodd nifer fawr o aelodau, yn blant, pobl ifanc ac oedolion brofiad arbennig iawn eleni wrth gyflwyno Drama'r Geni yn yr awyr agored ar Fferm Ymddiriedolaeth Amelia. Pan fydd asyn, defaid a cheffylau yn rhan o'r cast, angylion ar ben to sied wair a gorsedd Herod wedi ei hadeiladu ar ben twlc y moch, llefarwyr ac organydd yng nghefn cerbyd digon sigledig ei olwg yn cael ei dynnu gan dractor, mae'r posibiliadau am lanast yn uchel iawn! Cafwyd perfformiadau gwych gan y cast pedair troed ar y tair. `Roedd y cast deudroed yn newid o noson i noson; `roedd yna dîm gwahanol yn gofalu am luniaeth ar y tair noson; `roedd nifer wedi bod wrthi yn ddyfal iawn ymlaen llaw yn paratoi'r gwisgoedd (a mins peis!) a chriw arall yn sicrhau fod pobl yn dilyn y llwybrau cywir, gofalu am y goleuo a chyfeilio i'r carolau. `Roedd pobl y fferm hwythau yn gefnogol iawn gyda'u cymorth ymarferol a sgript Owain Llyr yn ein harwain yn naturiol o olygfa i olygfa.

Fore Sul cyn y Nadolig, cyfle y plant lleiaf oedd hi i gyflwyno addasiad Owain Llyr o waith Angharad Tomos, "Y Bugail Blin". Diolch i'r holl blant, rhieni ac athrawon am eu gwaith cyson a manwl yn yr Ysgol Sul a'i gweithgarwch - a diolch arbennig y tro yma i Eirlys Eckley am gymryd at yr hyfforddi. Yn dilyn yr oedfa cafwyd ymweliad arbennig gan Siôn Corn i longyfarch y plant am eu holl gweithgarwch dros y flwyddyn gan gynnwys dwy apêl Nadolig: siocled a melysion i blant Romania a nwyddau cynnes ar gyfer y digartref yng Nghaerdydd. Ar y nos Sul, cawsom ein tywys mewn gwasanaeth naw llith a charol hynod fendithiol wedi ei drefnu gan Meudwen Davies a Marian Lake.

Arweiniwyd ein hoedfa Noswyl Nadolig gan Owain Llyr a Lona, ac Owain yn defnyddio ffyn candi i ddangos i ni holl arwyddocâd y Nadolig. Rhai oriau yn ddiweddarach, roedd cynulleidfa niferus yng nghapel y Crwys. Gyda cherddorfa ieuenctid y ddwy eglwys yn cynorthwyo a'r Parchg Glyn Tudwal Jones yn cymryd at rannau arweiniol yr oedfa, cawsom ein tywys gan ein Gweinidog i ystyried beth fu ymateb y bugeiliaid wedi iddynt ddychwelyd o'r stabl ym Methlehem - a beth fydd ein hymateb ninnau wedi i ni ddathlu'r Nadolig unwaith yn rhagor eleni? "Awn i Fethlehem" oedd yr addewid ar gyfer y bore Gwener wedi'r Nadolig. Gan ddechrau yn Eglwys Llandaf, cerddodd rhyw bymtheg i Fethlehem, Gwaelod y Garth gan gyrraedd erbyn amser cinio.

Mae'r Gymdeithas wedi bod yn hynod brysur dros y deufis diwethaf hefyd - cafwyd noson hwylus a diddorol yng nghwmni Mrs Myfanwy Jarman ddiwedd Tachwedd a, deufis wedi iddynt ddod atom, dyma groesawu Owain a Lona i blith y Gymdeithas. Gyda gwledd ar y byrddau cafwyd gwledd arall yng nghwmni Aled Gwyn a John Albert wrth iddynt liwio ac arwain nifer o eitemau gan yr aelodau a chyfeillion - "sosial" yn nhraddodiad gorau'r Gorllewin! Gyda'r flwyddyn newydd, cynhaliwyd Plygain yng nghapel hynafol Bethesda'r Fro. Bu nifer o aelodau a chyfeillion (gan gynnwys grwp o fechgyn o'r Eglwys Efengylaidd Gymraeg) yn cymryd rhan a chlywyd nifer o garolau newydd ynghyd â rhai mwy cyfarwydd mewn oedfa fendithiol a arweiniwyd gan Alun Evans.

## Eglwys y Crwys

Y Grŵp Merched - ddechrau mis Rhagfyr cafodd y Grŵp Merched ei Swper Nadolig blynyddol, fe'i cynhaliwyd yn y festri o dan lywyddiaeth Mrs Babs Evans. Mrs Liz Foulady oedd yn gyfrifol am baratoi y bwyd ac fe weinyddwyd wrth y byrddau gan Robin Jones, Gareth Lloyd Jones, Eirwyn Wiliam, Bob Roberts a Garwyn Davies.

**Cylch y Chwiorydd a'r Froderfa** - Cafodd aelodau y ddau grwp yma brynhawn difyr a gwerthfawr ddydd Mercher, Rhagfyr 11, yn gwrando ar sgwrs gan y Parchg Gareth Reynolds ar ei ymweliad diweddar ar Wladfa ym Mhatagonia. Trefnwyd y prynhawn mewn ysbryd tymhorol gyda 'phaned a mins peis'.

**Bangladesh** - yn ystod y flwyddyn a aeth heibio bu'r Eglwys yn hynod brysur yn casglu arian tuag at apêl Bangladesh. Bu'r ymdrech yn llwyddiannus iawn ac fe lwyddwyd i sicrhau y swm o £2,600 tuag at apêl y Cyfundeb.

**Y Gymdeithas** - arweinwyd aelodau y Gymdeithas tuag at Wyl y Geni gan Mrs Eilonwy Jones. 'Cywair y Nadolig' oedd ei thestun a chafwyd ganddi noson gyfoethog yn olrhain datblygiad cerddoriaeth Nadoligaidd dros y canrifoedd. Y Gymdeithas hefyd o dan lywyddiaeth Mrs Rhiain Phillips a arweiniodd yr Eglwys yn yr oedfa nos Sul cyn y Nadolig ac yng nghwrdd gweddi dechrau'r flwyddyn. Roedd y cyfarfod yma yng ngofal teulu Ann Brain a John Rowlands.

**Yr Ysgol Sul** - bu arolygydd yr Ysgol Sul, Mrs Ceri Parry a'i hathrawon ymroddgar yn ddiwyd iawn cyn y Nadolig yn paratoi arddangosfa o waith llaw y plant ar gyfer cyntedd cefn y capel. Nid anghofiwyd chwaith Stori'r Nadolig ac ar fore Sul cyn yr Wyl cafodd cynulleidfa gref gyfle i wrando ar ddosbarthiadau yr Ysgol Sul yn ein hatgoffa am y Nadolig cyntaf.

**Taith Gerdded** - Arwel Owen a David Jones a drefnodd y daith gerdded dros gyfnod y Nadolig eleni. Cafwyd diwrnod hyfryd a hwylus yn crwydro rhwng pentref Redwick a phont Hafren.

**Y Clwb Teithio** - bu Clwb Teithio '91 o dan gyfarwyddyd ac arweiniad Aled Evans ar daith undydd i Rydychen ar ddydd Sadwrn, 25 Ionawr. Mae taith llawer pellach wedi ei threfnu ar gyfer cyfnod gwyliau'r Pasg, pryd hynny bydd teithwyr y clwb yn ymweld â Barcelona, Madrid a Burgos.

**Y Gymdeithas Ddrama** - bydd y Gymdeithas Ddrama yn perfformio y panto Llew Llanbethma ar ddechrau mis Chwefror.

## BETHEL, RHIWBINA

Cafwyd cynulleidfa dda ym mhob un o'r oedfaon dros gyfnod y Nadolig. Roedd pawb yn edrych ymlaen yn fawr at oedfa'r plant dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig T. Evan Morgan, ac ni chawsom ein siomi. Ar ôl yr oedfa mi gafodd y plant eu parti, gyda Siôn Corn yn galw gyda llu o anrhegion. Y Sul canlynol tro yr oedolion oedd hi i gynnal eu hoedfa Nadolig gyda'r Dr. Richard Elfyn Jones wrth yr organ. Diolch i Mrs. Gwenda Francis a Mrs. Mair Jenkins am drefnu'r oedfa, a diolch i Gwenda a Meirwen, ei mham, am y rhodd o Goeden Nadolig unwaith eto eleni. Noswyl Nadolig roedd y capel yn llawn pan gynhaliwyd Oedfa Garol a Channwyll gan Gymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Mr. Alun Guy oedd wrth yr organ. A Sul ola'r flwyddyn cafwyd oedfa ar y cyd ag aelodau Salem, ein chwaer eglwys, dan arweiniad ein Gweinidog.

Bedyddiwyd tri o aelodau'r Ysgol Sul – dau frawd a chwaer – gan y Gweinidog. Mae Megan, Aled a Bryn yn blant i Debra a Neil Ward, Rhiwbeina.

Dymunwyd yn dda i Mr. Gwilym Roberts cyn iddo gychwyn ar daith arall i Batagonia. Y tro hwn bydd yn treulio deufis gyda ei lu o gyfeillion yn y Wladfa. A chroeso'n ôl i Nerys Jones wedi iddi dreulio rhai misoedd yn gweithio'n wirfoddol yn Ghana. Ar ôl egwyl bydd Nerys yn cychwyn ar gwrs meddygaeth yng Nghaerdydd.

Croesawyd dau aelod newydd yn ystod yr oedfa, Ionawr 12fed. Gobeithio y caiff Nerys a Tom Smith, Rhiwbeina, bob bendith yn ein plith. Wrth eu croesawu dywedodd y Gweinidog fod pymtheg o aelodau newydd yn yr ofalaeth (Bethel a Salem) ers dechrau'r flwyddyn. Gyda'r aelodau ar gynnydd, yn ogystal â nifer y plant yn yr Ysgolion Sul, roedd o'n rhagweld blwyddyn lewyrchus yn y ddwy eglwys.

## Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg

Cynhaliwyd priodas Steve a Lois Bowen ar fore Sadwrn 21 Rhagfyr, a hyfryd oedd gweld cynifer wedi dod ynghyd, yn yr adeilad ar ei newydd wedd, i ddymuno'n dda i'r pâr ifanc.

Croesawyd Dr Chris a Dr Angharad Woolley ac Ioan Dafydd yn ôl i'r oedfaon wedi'r driniaeth a gafodd Dafydd yn Ysbyty Great Ormond Street, Llundain.

Cofiwn am Eunice Davies, yr Eglwys Newydd, wrth iddi wynebu triniaethau pellach yn Ysbyty Felindre.

Ddydd Sul 19 Ionawr, cawsom ein harwain yn y gwasanaethau gan ddau sydd wedi bod â chysylltiad agos â'r eglwys ers dyddiau coleg. Dewi George, yn wreiddiol o Dafen, Llanelli, a bregethodd yn oedfa'r bore, a Steffan Jones, o Rydaman yn wreiddiol, a bregethodd yn oedfa'r hwyr.

Yn ystod oedfa'r bore, 19 Ionawr, fe holwyd Gerallt Emyr gan Dr Phil Ellis am Lesotho a'r angen yno. Dymunwyd yn dda, ar ran yr eglwys, i Gerallt cyn iddo deithio i ddeheudir Affrica i dreulio ei gyfnod dewisol fel myfyriwr meddygol am chwe wythnos mewn ysbyty ym Maluti, Lesotho.

Estynnir gwahoddiad arbennig i ddysgwyr y Gymraeg i ymuno â ni mewn Oedfa i'r Dysgwyr ar nos Sul 9 Chwefror. Darperir te am 4.00 p.m.

Ar 28 Chwefror cynhelir dathliad Gŵyl Ddewi yr egwlys am 6.00 p.m., ac mae croeso cynnes i ddysgwyr a chyfeillion ymuno â ni.

Bu cryn gasglu dillad ar gyfer yr angen yn Rwmania yn ystod yr wythnosau diwethaf, a dymuna Helen Gibbard ddiolch am yr ymateb i'r apêl. Bydd y dillad yn cael eu cludo i Rwmania yn ystod mis Ebrill.

## EGLWYS DEWI SANT

**DYDDIADUR TYMOR Y GARAWYS 2003**

**Chwefror**

**2 Cyflwyniad Crist yn y Deml/Gwyl Fair y Canhwyllau**
8.00 Offeren
10.30 Offeren ar Gân a Gorymdaith y Canhwyllau.
6.00 Hwyrol Weddi ar Gân

**5 Cwrs Emaus**

**6 Cyngerdd Côr Plant Caerdydd**

**9 Pedwerydd Sul cyn y Garawys**
8.00 Offeren
10.30 Offeren ar Gân
6.00 Hwyrol Weddi ar Gân

**11 Cwrs Emaus**

**16 Trydydd Sul cyn y Garawys**
8.00 Offeren
10.30 Offeren ar Gân
6.00 Hwyrol Weddi ar Gân

**23 Ail Sul cyn y Garawys**
8.00 Offeren
10.30 Boreol Weddi ar Gân
6.00 Hwyrol Weddi ar Gân

**Mawrth**

**2 Dydd Gwyl Dewi**
8.0 Offeren
10.30 Offeren ar Gân - Llywydd: Y Gwir Barchedig Saunders Davies, Esgob Bangor.
Cinio Gwyl Ddewi ar ôl y gwasanaeth.
6.00 Hwyrol Weddi ar Gân - Pregethwr: Y Gwir Barchedig Saunders Davies, Esgob Bangor

**5 Dydd Mercher y Lludw**
10.30 Offeren
7.30 Offeren ar Gân ac arddodi lludw

**9 Garawys 1**
8.00 Offeren
10.30 Offeren ar Gân
6.00 Gwasanaeth o Edifeirwch ar gychwyn y Garawys

**12 Cyfarfod Cyngor Plwyf Eglwysig**

**16 Garawys 2**
8.00 Offeren
10.30 Offeren ar Gân
6.00 Hwyrol Weddi ar Gân

**23 Garawys 3**
9.00 Offeren
10.31 Offeren ar Gân
7.00 Hwyrol Weddi ar Gân

Cofiwch……yn y Garawys…..Cinio Bara a Chaws ar ddyddiau Mercher…..elw at elusen ….Offeren am 11.30
Mawrth 12; Mawrth 19; Ebrill 2; Ebrill 9. Dewch yn llu…..

**Eglwys Dewi Sant**
Cilgant St Andrews, Caerdydd

**CYNGERDD – CONCERT**
GYDA
**CÔR PLANT CAERDYDD**

**GWENER, CHWEFROR 7 2003 • 7.30PM**

Tocynnau £4 / Plant £2 Elw at waith yr Eglwys
Tocynnau ar gael o: 029 2076 2817

# TUDALEN YR URDD

## CARW SION CORN YN DAL YN BRYSUR!

Yn wahanol i'r gred gyffredin nid Rwdolff yw prif garw Sion Corn ond Carwyn, carw Cymreig sy'n byw yng nghoedwigoedd Parc Gwledig Margam.

Wedi prysurdeb y Nadolig mae Carwyn wrthi'n brysur unwaith eto yn ymweld â dros 5,000 o blant cynradd ardaloedd Tawe Nedd ac Afan, yn cynorthwyo staff Urdd Gobaith Cymru i hyrwyddo Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd fydd ym Mharc Margam 26 - 31 Mai 2003.

Fe fydd Carwyn yn ymweld ac yn perfformio mewn 50 ysgol dros y 3 wythnos nesaf. Bwriad yr ymweliadau yw i ddangos i'r plant yr hwyl sydd i'w gael wrth fod yn rhan o'r Wyl ieuenctid fwyaf o'i bath yn Ewrop - cyfle i gystadlu mewn amrywiaeth eang o gystadlaethau, i berfformio yn Sioe Plant yr Eisteddfod, neu jyst i joio'r llu o weithgareddau eraill fydd ar gael ar y maes!

Cynorthwyir Carwyn y Carw gan Mr Urdd, Orinda Jones ac Emma Hickey.

Am ragor o wybodaeth ac amserlen y daith, cysylltwch â Helen Philips (Swyddog Datblygu Tawe Nedd ac Afan) ar 01554 880895/07976 003335, neu Heulyn Rees (Dirprwy Gyfarwyddwr Eisteddfod yr Urdd) ar 029 2080 3361.

# Dudley S4C



Rwyf ar hyn o bryd yn paratoi cyfres newydd o **'Dudley'** ar gyfer S4C, i'w ffilmio dros y flwyddyn nesaf.

Fe wyr y rhai ohonoch chi sy'n gyfarwydd a'r gyfres fy mod i'n hoff o grwydro Cymru, cwrdd a chymeriadau lliwgar a diddorol i rannu rysetiau a chael sbort.

Os gwyddoch chi am unrhyw rai a fydde'n addas ar gyfer y gyfres nesa - cysylltwch a fi.

Beth am-
**Hoff Rysetiau** - gan gymeriad adnabyddus ardal - rhai syml cyffredin, traddodiadol, teuluol neu rai unigryw i ardal / bro.
**Cymeriadau / teuluoedd** sy'n adnabyddus yn eu hardaloedd.
**Digwyddiadau** arbennig yn yr ardal sy'n ymwneud â bwyd a dathliadau.

Mae gen i ddiddordeb clywed gan bawb sy'n ymddiddori mewn bwyd.

Cysylltwch â ni ar frys drwy lythyr, ffôn, ffacs neu e.bost:
**'Dudley', Teledu Opus, 60 Severn Grove, Pontcanna, Caerdydd CF11 9EP.**
**Ffôn: 029 20223456 e.bost - Alison@opustv.com ffacs: 02920 377746**

# BUSNESAU LLEOL YN CEFNOGI'R IAITH GYMRAEG

Yn gynyddol, mae busnesau bach yng Nghymru yn defnyddio'r Iaith Gymraeg i ychwanegu gwerth i'w cynnyrch a gwella'u gwasanaeth i gwsmeriaid. Mae'n hiaith, ein diwylliant a'n treftadaeth yn cael eu cydnabod yn eang fel pwyntiau gwerthu unigryw gan gwmniau o bob math. Caiff ei gydnabod fod cynnig gwasanaeth dwyieithog yn ran hanfodol o ddatblygu cysylltiadau â chwsmeriaid a chleientiaid yng Nghymru.

Y mae Menter Caerdydd sydd yn fudiad cymunedol gyda'i nod o hybu ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg yn cynnig cyngor a chymorth arbenigol o ran defnyddio'r Gymraeg yn y sector breifat.

Yn ddiweddar, rydym fel Menter wedi cysylltu â nifer o fusnesau yn ardal Pontcanna a chanol yu ddinas i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn eu busnes, yn pwysleisio pa mor bwysig i fusnes yw mabwysiadu polisïau dwyieithog. Cyflwynwyd pecyn sector breifat yn ogystal â arwydd drws dwyieithog "Ar Agor/Ar Gau". Cafwyd ymateb calonogol iawn gyda nifer yn awyddus iawn i arddangos yr arwydd drws yn ogystal â chyfieithu deunydd eu siop.

Hoffwn ddiolch i'r siopau am ddangos cefnogaeth a brwdfrydedd.

Os hoffech wybod mwy cysylltwch â Menter Iaith Caerdydd - Leahrhydderch@mentercaerdydd.org

## SIOPAU CEFNOGOL

**Pontcanna**- Pulse Wholefoods, Mead Property Management, Learning Tree, Forecast, The Frame Shop, Smith and Teague Engraves, Costa Rica, The Dry Cleaners, Dricollis, Fruit Bowl, Hot Pantri, Pontcanna News, Barkways Florist, Feet and Face Place, Shelleys Delicatessen a Roger Williams Jewellry Studio, Emporium Barbers a Fferyllfa Pontcanna.

**Canol y Ddinas** - Topo Gigios, Postinos, Internet Exchange, Truffles, Browns and Booksales.
Europa & Castle Welsh Craffts - Castle Street, Canadian Muffin - High Street, Things Welsh- Duke Street Arcade, Pulcinella.

**Ardal Caerdydd** - Oriel Washington - Penarth, Training House - Woodville Road a Playtime Palace, Field Way (Heol Maes y Coed).

# Plasmawr

### Ymweliad Menna Elfyn

Ar ddydd Gwener, y degfed o Ionawr, daeth Menna Elfyn, Bardd Plant Cymru, i roi blas i ni ar farddoni.

Dysgon ni ei bod yn bosibl ysgrifennu darn o farddoniaeth am unrhyw beth drwy wneud cerdd ddosbarth am grocodeil ac un am fwrdd gwyn! Yna, buom yn creu darn arall o farddoniaeth mewn parau am anifeiliaid amrywiol.

Cawsom ni hwyl yn gwrando ar ymdrechion ein gilydd a chlywed beth oedd barn Menna Elfyn am ein gwaith. Hoffwn i, ar ran disgyblion blwyddyn 7, ddiolch i Menna Elfyn am ei hamser a'i chyfraniad gwerthfawr. Rwy'n siwr y bydd yr hyn a ddysgom ganddi yn ddefnyddiol iawn er mwyn ein hysbrydoli ni i farddoni yn y dyfodol.

Ffion Lewis (Blwyddyn 7)

### Ymweld â Mandir yn Llundain

Ar ddiwedd mis Tachwedd, aeth criw o ddisgyblion blwyddyn 10, 11 a'r chweched dosbarth sy'n astudio Addysg Grefyddol ar fws i Lundain. Roedd y daith yn hir ond roedd pawb yn edrych ymlaen a'r tywydd yn braf y tu allan. Pan gyrhaeddom aeth rhai i ymweld â'r ganolfan Bwdhaeth i ddysgu mwy am y grefydd maen nhw'n ei hastudio.

Aethom ni i ymweld â'r Shri Swāminārāyan sef Mandir yn Neasdon. Y Mandir yw adeilad sanctaidd yr Hindwaid a Hindwaeth yw'r grefydd yr ydym yn ei hastudio ar gyfer ein arholiad TGAU. Mae'r Mandir yma'n anhygoel ac wedi'i lleoli ger ffordd fawr brysur. Y tu mewn ar y llaw arall, mae'n lle mor dawel a heddychlon. 2,828 tunnell o farmor a ddefnyddiwyd i adeiladu'r Mandir. Cafodd yr holl ddelwau eu gwneud o farmor, a'u carfio â llaw. Roedd yr adeilad yn enfawr ac yn sanctaidd iawn. Wedi ymweld â'r Mandir, fe aethom i Oxford Street i siopa am ddwy awr. Roedd y stryd fel petai'n para am byth a doedd dim digon o amser i ymweld â hanner y siopau! Cyn medru dod i ben â'r holl siopa, roedd yn amser mynd adref. Fe aethom ar y bws ar ôl diwrnod blinedig a chyrraedd yn ôl ym Mhlasmawr am 11 o'r gloch yr hwyr. Fe wnaethom fwynhau'r daith yn fawr iawn a bydd yr ymweliad â'r Mandir o fudd i ni wrth adolygu! Mi fyddai pawb yn ddigon hapus i ddychwelyd i Lundain i orffen eu siopa!

Elen Hughes (Blwyddyn 11)

### Chwaraeon Rhynglysol

Cynhaliwyd diwrnod chwaraeon rhynglysol yn yr ysgol yn ddiweddar. Hoffwn longyfarch y ddau lys buddugol sef Llys Elfed a enillodd y gystadleuaeth pêl-rwyd a Llys Nantlais a oedd yn fuddugol yn y pêl-droed. Hoffwn longyfarch unigolion buddugol y twrnameint yn ogystal; Grant Simpson a Kira Davies o flwyddyn 7, Dafydd Jenkins a Nadine Jarvis o flwyddyn 8, Ieuan Stracy a Jade Simmonds o flwyddyn 9, Leigh Bennett a Natasha Withey o flwyddyn 10 a Geraint Passmore o flwyddyn 12. Llongyfarchiadau arbennig i dîm pêl-rwyd merched y staff a gurodd ferched blwyddyn 12 a 13! Ar hyn o bryd, mae'r gyfres yn gyfartal rhwng tîm pêl-droed dynion y staff a bechgyn blwyddyn 12 a 13. Bydd gêm yn cael ei chwarae'n fuan i weld pwy yw'r buddugwyr!

### Llongyfarchiadau:

- i Rhidian Marc, Helena Wilcox a Sioned Wyn sydd wedi cael eu dewis i ganu yng Nghôr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru,
- i Stephanie Dyer sydd wedi cael ei dewis i chwarae yng Ngherddorfa Genedlaethol Ieuenctid Prydain,
- i Rhys Thomas sydd wedi cael ei ddewis i nofio yn nhîm Cymru ym Mhencampwriaeth Prydain yn Iwerddon,
- i Gwennan Harries sydd wedi cael ei dewis i garfan pêl-droed merched Cymru o dan 16,
- i Natasha Withey a fydd yn cynrychioli Caerdydd a'r Fro mewn cystadleuaeth trawsgwlad,
- ac i Owain Bevan, Ffion Rolph a Gareth Williams a ddaeth yn drydydd mewn cwis daearyddol a drefnwyd gan y Gymdeithas Ddaearyddol.

# ... A GALWCH ACW!

Mae siop Aga yn Heol Caerffili yn cynnal arddangosiadau coginio yn gyson i'w cwsmeriaid, darpar gwsmeriaid ac i unrhyw un sydd a diddordeb. Mae'r sioeau hyn yn boblogaidd iawn gyda gofyn cyson am fwy. Fe fydd y sioe nesaf yn dathlu Gŵyl Ddewi, am 6.30 Nos Fercher, 26 Chwefror 2003.

Er mai yn Saesneg mae'r arddangosiadau ar hyn o bryd fe fydd Siop Aga yn fodlon trefnu rhai Cymraeg os bydd dinasyddion Caerdydd a'r cyffiniau yn dangos digon o ddiddordeb.

Am fwy o fanylion am offer AGA ac i wneud yn siwr o'ch lle yn y sioe nesaf, ffonwch y Siop AGA ar 029 20521277 neu anfonwch e bost i Cardiff@Aga-Rayburn.co.uk

Dyma un rysait ar gyfer dathlu Gŵyl Ddewi fel tamaid i aros pryd.

*Pice ar y maen*

2 owns / 50g menyn
2 owns / 50g lard
8 owns / 225g blawd codi
2 owns / 50g siwgwr caster
hanner llwy de o phergneuen (nytmeg) wedi ei gratio
3 owns / 75g cyrens
1 wy
llaeth



Golygfa y tu mewn i siop AGA yn Heol Caerffili

Rhwbiwch y lard a'r menyn i'r blawd ac ychwanegwch y siwgwr, y cyrens a'r sbeis. Ychwanegwch wy i wneud toes gan ychwanegu llaeth os oes rhaid.

Hanerwch y gymysgedd a thaenwch y ddau hanner yn gylchoedd tua trwch bys. Marciwch pob cylch i wyth triongl a'u coginio am tua 4 i 5 munud bob ochr.

Holltwch y teisennau ac ychwanegwch fenyn. Mwynhewch!

# Glantaf

## Glantaf yn Rhagori yn yr Iaith Fain

Gwelwyd cystadlu brwd yn adeilad Opera Cenedlaethol Cymru ganol mis Ionawr wrth i dimau siarad cyhoeddus o ddwy ysgol fynd ben ben â'i gilydd yn rownd gyntaf cystadleuaeth siarad cyhoeddus Rotari Bae Caerdydd. Yn dilyn llwyddiant Ysgol Glantaf yn y gystadleuaeth Gymraeg fis Rhagfyr, pan ddaeth tîm o'r ysgol yn ail yn Ne Cymru, dyma gyfle i'w disgyblion ddangos eu doniau trwy gyfrwng y Saesneg. Ysgol St. Teilo oedd y gwrthwynebwyr, yn cyflwyno'r ddadl o blaid ac yn erbyn erthylu, tra pwnc y tri o Glantaf oedd dadlau y dylid gwahardd arholiadau. Y tri a siaradodd ar ran Glantaf oedd Mari Griffiths (cadeirydd), Luke Pearce (cynigydd) a Daniel Hefin (gwrthwynebydd). Bu'r ddau ddadleuwr wrthi'n frwd, a chafodd y cadeirydd druan gerydd am ei harferion siopa! Glantaf a fu'n fuddugol. Dyma ddangos bod ysgolion Cymraeg yn medru dal eu tir yn y ddwy iaith.

Luke Pearce, Bl. 6i

## Cyffro Sefydlu'r Cyngor Ysgol

Eleni, o dan arweinyddiaeth y prif swyddogion, ffurfiwyd Cyngor Ysgol, y cyntaf o'i fath yng Nglantaf. Mae'r cyngor yn cyfarfod yn wythnosol, a chaiff bob blwyddyn ei chynrychioli gan ddau ddisgybl. Bydd y cynrychiolwyr yma yn atebol i'r pwyllgorau blwyddyn, a byddant yn cynnig adborth cyson, ac yn llunio syniadau a pholisiau newydd. Rhodri Davies, fel prif fachgen, sydd yn gyfrifol am y cyngor, a chaiff ei fynychu gan bedwar aelod o staff hefyd. Cytunwyd yn ddiweddar i ffurfio papur drafft ar sefyllfa'r ffreutur, a'i gyflwyno i'r Prifathro ac i'r Sir. Dywedodd Rhodri Davies ei fod yn falch bod gan ddisgyblion rhywfaint o lais bellach mewn materion sydd yn effeithio arnynt. "Mae'r Cyngor yn ddolen gyswllt bwysig rhwng athrawon a disgyblion" meddai.


Tomos Dafydd, Bl. 6i

## Y Cynllun Cyfaill

Mae bron tymor llawn wei mynd ers i blant bach yr ysgolion cynradd ddod i'r ysgol fawr! Roeddem, fel sawl un arall, yn bryderus ar y dechrau. Mae Glantaf mor wahanol, o ran maint, poblogaeth, ac o safbwynt y gwersi, i'r hyn rydym oll wedi arfer gyda yn ein hysgolion cynradd. Gallaf ddweud serch hynny, bod disgyblion ac athrawon yr ysgol wedi estyn croeso i bob un ohonom, ac wedi bod yn gymorth mawr i ni i gyd wrth ymgyfarwyddo â'r Ysgol. Rydym oll wedi addasu i ffordd Glantaf.

Cynllun newydd a sefydlwyd eleni yw'r "Cynllun Cyfaill". Caiff disgybl o'r chweched dosbarth ei benodi yn gyfaill i ddisgybl ym mlwyddyn saith. Prif dasg y disgyblion yn y chweched yw cyfarfod yn rheolaidd â ni ddisgyblion blwyddyn saith, gan gadw llygad arnom a'n helpu â'n gwaith neu'n gofidiau. Mae'r cynllun wedi bod yn gwbl lwyddiannus. Gallwn siarad â rhywun heblaw yr athrawon, ac yn bwysicaf, rydym wedi gwneud ffrindiau newydd.

Owen Jones, Bl. 7



## Catrin yn serennu yn Jara

Roedd un o gyn-ddisgyblion Ysgol Gyfun Glantaf, Catrin Gwynn Williams i'w gweld yn actio un o'r prif rannau mewn cyfres newydd sbon a ddechreuodd ar S4C ar 8 Ionawr. Cyfres yw hon am griw o bobl ifanc sy'n cael profiadau rhyfedd. Mae Catrin bellach yn ei blwyddyn gyntaf yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth yn astudio Cymraeg a Hanes Celf. Mae hi'n cyfaddef nad oedd hi erioed wedi ystyried actio fel gyrfa cyn mynd ar siawns i glyweliadau am y gyfres Jara. Mae'r cymeriad y mae Catrin yn ei phortreadu, Branwen yn ferch sydd â phroblemau dyrys iawn. Cafodd ei danfon i ffwrdd i fyw gyda'i modryb ac ers hynny mae hi wedi ymhêl â chyffuriau a phuteindra. Gwyliwch y gyfres o 12 pennod i gael gweddill y stori.




**Cymdeithas Carnhuanawc**

**'Gwir yn Erbyn y Byd'**
**Iolo Morganwg**

**Yr Athro Geraint Jenkins**
**(Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Prifysgol Aberystwyth)**

**Nos Fercher, 12 Mawrth**
**7.30pm**
**Canolfan Chapter, Market St, Caerdydd**

SBAEN
Pasg 2003

**12 - 22 Ebrill 2003**
(10 noson : 11 niwrnod)
yn cynnwys mordaith
P&O o Portsmouth i Bilbao
(2 noson + 1 noson ar y ffordd gartref)

Gwely a brecwast mewn gwestai 4**** am 7 noson a caban ar y fordaith am 3 noson

PRIS
£599

Barcelona
Madrid
Burgos

Gwyliau bendigedig – coets penigamp gyda'r holl gyfleusterau diweddaraf – cwmni hwyliog a chyfeillgar Cymry Caerdydd a'r Fro - blynyddoedd o brofiad – dros 20 o deithiau ers 1991 – ymunwch a'r criw!

**CYSYLLTWCH AG ALED EVANS**
029 20494376 Am fwy o fanylion
*Clwb Teithio '91*

# Calendr y Dinesydd

**(Mae Calendr y Dinesydd hefyd ar wefan Menter Iaith Caerdydd: http://www.mentercaerdydd.org/cymraeg/digwydd.htm)**

**Gwener, 7 Chwefror**
Cymrodorion Caerdydd: Sgwrs gan Dr Angharad Price ar 'O! Tyn y Gorchudd', yn festri Eglwys y Tabernacl, Yr Ais, am 7.15 p.m.

**Iau, 13 Chwefror**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'Ble Nesaf yn y Dwyrain Canol.' Sgwrs gan Stephen Thomas, yn y Deml Heddwch, Parc Cathays, am 7.30 p.m.

**Gwener, 14 Chwefror**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Noson yng nghwmni Alwyn Samuel, yn festri Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m.

**Llun, 17 Chwefror**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Noson yr Aelodau, yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.30 p.m.

**Llun, 17 Chwefror**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: Darlith gan Stuart Thompson ar waith yr RSPB, yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 18 Chwefror**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Noson gerddorol yng nghwmni Euros Rhys, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

**Mawrth, 18 Chwefror**
Cymdeithas Eglwys Minny Street: Cwis yng nghwmni Idwal Hughes, yn festri Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.

**Mercher, 19 Chwefror**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Anerchiad gan Ken Kane, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, am 7.00 p.m.

**Gwener, 21 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Diwylliant Gwerin Morgannwg.' Darlith gan Allan James yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.

**Gwener, 28 Chwefror**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Cinio Gwyl Ddewi yng Ngwesty Mount Sorrel am 7.30 ar gyfer 8.00 p.m. Prif westai: Siân Thomas (BBC).

**Gwener, 28 Chwefror**
Cymdeithas Eglwys y Crwys: Cinio Gwyl Ddewi yng Ngwesty'r Ansawdd, Tongwynlais. Gwr gwadd: Dr Aled Lloyd Davies. Manylion pellach: 029-2084-3298.

**Gwener, 28 Chwefror**
Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg: Noson o gymdeithasu ac eitemau amrywiol i ddathlu Gwy^l Ddewi, yn adeilad yr Eglwys, Rhymney St., Cathays, am 6.00 p.m. Croeso arbennig i ddysgwyr.

**Sadwrn, 1 Mawrth**
Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan: Darlith gan Dr Dulais Rhys ar Dr Joseph Parry, yn Stiwt y Gweithwyr, Oakdale, yn yr Amgueddfa, am 2.00 p.m. Mynediad am ddim.

**Sul, 2 Mawrth**
Eglwys Dewi Sant, Caerdydd: Dathliadau Gŵyl Ddewi. 10.30: Offeren ar Gân. Llywydd: Y Gwir Barchedig Saunders Davies (Esgob Bangor); Pregethwr: Y Parchedig Meurig Llwyd (Ficer). Cenir 'Offeren Dewi Sant' gan Geraint Lewis. 6.00: Hwyrol Weddi ar Gân. Pregethwr: Y Gwir Barchedig Saunders Davies (Esgob Bangor)

**Mercher, 5 Mawrth**
Merched y Wawr (Bro Radyr): Sgwrs gan Heddwyn Richards am lestri 'Gaudy Welsh'. Manylion pellach: 029-2056-4406 neu 029-2084-2929.

**Mercher, 5 Mawrth**
Cymuned: Cyfarfod misol yn Y Mochyn Du, Gerddi Sophia, am 7.30 p.m. Croeso i bawb.

**Iau, 6 Mawrth**
Cymdeithas Eglwys Minny Street: Cinio Gwyl Ddewi. Gwesteion: Lewis a Sian Evans. Manylion pellach: 029-2069-4667.

**Gwener, 7 Mawrth**
Cymrodorion Caerdydd: Darlith Gwyl Ddewi, gan y Prifardd T. James Jones ar y testun 'Cyfarwydd Llaregyb', yn festri Eglwys y Crwys, Heol Richmond, am 7.15 p.m.

**Llun, 10 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Cinio Gwyl Ddewi, ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.

**Mercher, 12 Mawrth**
Cymdeithas Camhuanawc: ' "Gwir yn Erbyn y Byd": Iolo Morganwg'. Darlith gan yr Athro Geraint H. Jenkins, Aberystwyth, yng Nghanolfan Celfyddydau Chapter, Market St., Treganna, am 7.30 p.m.

**Iau, 13 Mawrth**
Cylch Cinio Merched Caerdydd yng Ngwesty'r Phoenix, Llanisien, am 7.00 ar gyfer 7.30 p.m. Noson dan ofal Manon Rhys. Manylion pellach: 029-2065-7730 neu 029-2062-4878.

**Iau, 13 Mawrth**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'A wneir cam ag Islam?' Sgwrs gan Ali Yassin, yng Nghapel y Crwys, Heol Richmond, am 7.30 p.m.

**Gwener, 14 Mawrth**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Swper Gwyl Ddewi, yn festri Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m. Gwr gwadd: Parch. Glyn Tudwal Jones.

**Gwener, 14 Mawrth**
Cymdeithas Eglwys y Crwys: Cyngerdd gan Gôrdydd (Arweinydd: Sioned James), yn Eglwys y Crwys, Heol Richmond, am 7.30 p.m. Casgliad at elusen.

**Sadwrn, 15 Mawrth**
Sadwrn Siarad yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Cyfle i ddysgwyr Cymraeg ymarfer mewn lleoliad cwbl Gymraeg. I archebu lle, neu i gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg, Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd ar 029-2087-4710. Mynediad am ddim.

**Llun, 17 Mawrth**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: Cyflwyniad Disgyblion Ysgol ar eu Prosiect Peirianeg, yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.

**Llun, 17 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Noson gyda'r Dysgwyr, yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 6.30 p.m.

**Mawrth, 18 Mawrth**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Pigion o Sain Ffagan gyda Meinwen Ruddock, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

**Mawrth, 18 Mawrth**
Cymdeithas Eglwys Minny Street: Noson Eifion a Catherine, yn festri Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.

**Mercher, 19 Mawrth**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Anerchiad gan Mrs Julia Burns, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, am 7.00 p.m.

**Iau, 20 Mawrth**
Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch: Y Cinio Blynyddol - dathlu dengmlwydd yng nghwmni Huw Edwards, yng Nghastell Caerdydd am 7.30 p.m. Manylion pellach: Ceri Preece (Ysgrifennydd), Hugh James Cyfreithwyr (Ffôn: 029-2039-1163; e-bost: ceri.preece@hughjames.com

**Gwener, 21 Mawrth**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Llyfrau Erchwyn Gwely.' Sgwrs gan y Parch. W. Eifion Powell yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.

**Sadwrn, 29 Mawrth**
Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg: Bore Coffi i Ddysgwyr (gan gynnwys sgwrs fer gan Gwen Emyr ar y testun 'Taith i Batagonia'), yn adeilad yr Eglwys, Rhymney St., Cathays, rhwng 10.30 a 12.00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

**Gwener, 4 Ebrill**
Cymdeithas Rhieni Ysgol Gyfun Glantaf yn cynnal Ocsiwn Addewidion a chyfle i brisio'ch trysorau. Yn yr ysgol, 7.30 p.m. Mynediad £3, croeso i bawb.

*Anfonwch fanylion at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).*

## Yr Awr Hapus

Mae yr Awr Hapus yn cyfarfod ar fore Llun rhwng 11.00 - 12.00 yn nhafarn Gwesty Pentref, Coryton, Caerdydd.

## Ymddiheuriad

Drwy ryw amryfusedd methwyd â chynnwys newyddion Eglwys y Crwys yn y tudalen "Newyddion o'r Eglwysi" yn y rhifyn Rhagfyr/Ionawr. Ymddiheurwn am hyn.

## Perchennog newydd i dîm pêl-droed Tre'r Barri



Perchennog newydd Tîm Tre'r Barri ydy John Fashanu a fu'n chwarae i Wimbledon, Aston Villa a Lloegr. Ymddeolodd o'r gêm yn 1995 oherwydd anaf i'w benglin a throdd i fyd busnes gan ddod yn wr cyfoethog. Pob lwc i dîm Tre'r Barri dan arweiniad ei berchennog newydd.

## Ar y CYD... yng ngofal Lynne Davies

Os ydych chi am chwerthin, dylech fabwysiadu cath. Mae fy nghath i, Cwtsh, yn ddigrifwraig naturiol, yn enwedig os yw hi'n penderfynu golchi ei chynffon. Mae'n rhaid iddi ddal y gynffon cyn ei golchu, a dyna lle mae'r hwyl yn dechrau: bob tro mae'n mynd ar ôl yr aelod hon o'i chorff, mae'n cyffroi, ac felly mae'r gynffon yn symud. Mae hi'n neidio ar ei hôl hi, mewn cylch, i'r dde ac wedyn i'r chwith, ac weithiau mae'n ceisio ei dal rhwng ei choesau ac yn mynd tin dros ben ar y carped. Dyna sioe! Peth arall sy'n ddoniol amdani yw pan fo arni ofn (ei ffobia mwyaf yw bagiau plastig swnllyd), mae'n rhedeg allan o'r ystafell, ond mae'n aros yn syth ar ôl iddi fynd trwy'r drws a gwylio o ochr arall y trothwy. Mae'n amlwg bod arni gymysgedd o chwilfrydedd ac ofn, ac mae'n teimlo'n ddigon diogel yno i weld beth sy'n digwydd.

Mae dysgwyr yn gallu bod fel hyn yn aml - maen nhw eisiau cymryd rhan ym mywyd Cymraeg y ddinas, ond mae arnynt ofn gamu i mewn. Gwnewch i 2003 fod y flwyddyn pan rydych yn croesi'r trothwy a dod i'n 'nabod ni. Fe ffindiwch chi nad ydyn ni'n brathu o gwbl!!! Beth am fynd i gyfarfodydd CYD: bob nos Fercher am naw o'r gloch yn nhafarn y Tavistock (Heol Tavistock), ar brynhawn Iau rhwng 3 a 5 yn Shot in the Dark, Lôn y Plwca (City Road) neu yn Neuadd Llanofer, Heol Romilly yn Nhreganna ar fore Mawrth rhwng 11 a 12 (mae crèche ar gael yn Nhreganna). Neu beth am ddod i ddathlu Dydd Gw^l Ddewi yn yr Eglwys Efengylaidd (gweler y dyddiadur). Gallech gysylltu hefyd â Menter Caerdydd i weld beth arall sy' 'mlaen. Efallai hoffai rywun ysgrifenni erthygl diddorol i'r colofn yma? Croeso! Anfonwch hi i mewn - fe wnawn ni le! Ond peidiwch ag aros ma's yn yr oerni - dewch i mewn!

**Geirfa**
mabwysiadu - *adopt*
ddigrifwraig - *comedienne*
trothwy - *threshold*
cymysgedd - *mixture*
chwilfrydedd - *curiosity*
camu - *to step*

# Dinas Powys



Aelodau o bwyllgor Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys yn trosglwyddo siec o £1200 i Pit-Pat, sefydliad sy'n gweithio i gynnal dioddefwyr y clefyd pitwidol.

Cafwyd noson "Wyddelig" llwyddiannus a hwylus iawn yn neuadd y pentref i godi arian at yr achos o dan lywyddiaeth Rhodri Jones a Gerwyn Williams.

## Y Border Bach

gan Hwn a Hon

Rhaid cyfaddef mae'r border bach yn edrych yn reit ddiflas ar hyn o bryd, er imi geisio dod o hyd i blanhigion i 'berfformio' ym mis Chwefror, ychydig o siâp sydd arnyn nhw! Ond mae 'na un sy'n codi fy nghalon bob tro yr af i mewn ag allan o'r drws ffrynt - sef Gwenllian!



Pwy yw hi, meddech chi? Wel, planhigyn o *Viburnum Tinus* 'Gwenllian' (Byddai'n ddiddorol gwybod pwy yw neu oedd y Gwenllian yma y rhoddwyd ei henw ar y math arbennig o'r llwyn bythwyrdd hyn). Mae Gwenllian yn byw mewn pot y tu allan i'r drws ffrynt. Nid yw ond 6 modfedd o uchder ar hyn o bryd ond mae wedi bod â blodau bach pinc serennog yn gorchuddio'r dail gwyrdd tywyll ers mis Tachwedd drwy'r gwynt, y glaw a'r rhew ac mi ddylai bara eto tan mis Ebrill.

Mae'n rhannu ei chartref â thri phlanhigyn arall, sef math o wair, *Carex comans* bronze, sydd â lliw brown iddo (yn edrych wedi crino byddai rhai yn dweud), *Euphorbia amygdaloides* 'Purpurea', planhigyn parhaol arall sydd â dail tywyll, porffor a'r *Drimys lanceolata* - math o goeden pupur - sydd â choesyn coch a dail gwyrdd sgleiniog. Mae'r pedwar yn cyfuno yn dda â'i gilydd mewn potyn pridd.

Mi all Gwenllian dyfu i fod yn 5 troedfedd pan yn ei llawn twf, a'r planhigyn pupur i fod yn 8 troedfedd, tra bo'r lleill yn fyrrach, felly maen nh'wn mynd i dyfu allan o'u cartref yn hwyr neu'n hwyrach. Ond gellir eu plannu mewn pot mwy neu yn y border pan ddigwydd hynny.

Gwelir *Viburnum tinus* gan mwyaf fel llwyn mawr yn yr ardd neu wedi ei dyfu i ffurf 'standard', h.y. gyda choes hir syth a phelen gron o dyfiant ar ei thop. Ond yn yr hydref mae'r canolfannau garddio gorau yn gwerthu planhigion bychan o'r llwyn hyn a phlanhigion bythwyrdd eraill ar gyfer eu rhoi mewn potiau i greu diddordeb dros y gaeaf. Mae'n hwyl trio gwahanol gyfuniadau a fydd yn ddeniadol o'r hydref drwodd i'r gwanwyn. Meddyliwch amdanynt fel arddangosfa dros dro yn hytrach na rhywbeth parhaol er y dylai'r planhigion i gyd gadw am sawl blwyddyn o gael gofal a lle cymwys.

Felly eleni tro fy mod yn aros i'r saffrwm a'r cennin Pedr ymddangos i lenwi'r border bach, byddaf yn dibynnu ar Gwenllian a'i chriw i godi fy nghalon.

# AELWYD NEWYDD

**C**wrdd am 7.30, nos Lun yng Nghapel y Tabernacl, yr Ais i

**F**wynhau, cymdeithasu, a chystadlu yn yr

**U**rdd mewn cystadleuthau amrywiol - yng

**N**ghwmni pobl ifanc oed 19-25 o ardal Caerdydd

---

# TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

*PRISIAU RHESYMOL*

Ffoniwch

**Caerwyn Davies**

ar **029 20868208**

neu **07967 558664**

---

*Ydy* ***Alcohol*** *yn costio mwy nag arian i ti?*

Paid digalonni! Mae 'na ateb!

AA

**Alcoholigion Anhysbys**

Ffonia **0845 7697555** a gofyn am gael sgwrs **yn Gymraeg** gyda rhywun sy'n deall.

---

# GWRES GWYN

Oes rhywun wedi gwasanaethu eich bwyler eleni? Nac oes?

Cysylltwch â Gwyn Rhys Jones

Gosodwr Cofrestredig Rhif 190209

82 Pendwyallt, Yr Eglwys Newydd

**07974 80 30 89**

gosod a symud rheiddiaduron, adnewyddu bwyleri ac ystafelloedd ymolchi, diweddaru systemau ac unedau rheoli, darganfod a datrys namau mewn systemau, tystysgrifau diogelwch

---

# PINNACLE

# LANDLORIAID



"Rydym yn cynnig gwasanaeth rheoli a rhentu yn unig ar gyfer fflatiau proffesiynol a thai myfyrwyr"

**Rol Gwyn,**
**Trefnydd Rhentu**

**10% o ostyngiad gyda'r hysbyseb hwn**

CORGI
Registered Gas Engineer

**Pinnacle Property Ltd.**
**3-5 Fanny Street**
**Cathays**
**Caerdydd**
**CF24 4EG**
**Tel: 029 2064 0200**
**info@pinnacle-group.com**
**www.pinnacle-group.com**

INVESTOR IN PEOPLE

Rydym yn aelodau cofrestredig o Alma (Assoc. of Letting and Management Agents) a gydnabyddir gan Gyngor Dinas Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd fel asiantau dibynadwy. Mae hyn yn golygu ein bod yn dal yswiriant indemniad ac yn dal cyfrif clientau.

---

**Mae pob cegin yn haeddu AGA**




**popeth o ffedog i ffwrn!**

the AGA shop

**81 Heol Caerffili, Caerdydd CF14 4AE**
**Ffôn: 029 20521277**
**Ffacs: 029 2052185**
**e-bost: Cardiff@Aga-Rayburn.c0.uk**